YR ✵ YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1902. [CYF. II. RHIF 11.

NODION Y MIS.

YMDDENGYS fel pe mai y pwlpud yw'r unig le y goddefir i ddynion draethu syniadau ydynt (a dyweyd y lleiaf am danynt) yn blentynaidd, ac yn sicr, yn y dyddiau hyn, ydynt yn arddangos drychfeddyliau hynafol i'r eithaf am ddull Duw o lywodraethu'r bydysawd. O'r cyfryw natur oedd sylw o eiddo Esgob Llundain, mewn pregeth a draddodwyd ganddo tranoeth i'r coroniad, fod Duw wedi danfon yr afiechyd diweddar ar ein brenin *er gwneud y genedl yn well.* Gwyddem fod syniadau tebyg i hyn yn ffynu yn gyffredin iawn mewn cylchoedd crefyddol nad yw diwylliant meddyliol wedi gweithio ei ffordd iddynt eto. Ond disgwyliem fod un sydd yn llanw cylch mor bwysig yn Eglwys Lloegr yn meddu gwell drychfeddwl na hyn am Dduw a'i ffordd.

Byddai'r un desgrifiad yn darawiadol iawn am lawer o'r hyn ddywedir mewn gweddiau, yn ogystal ag am y syniad cyffredin am ddyben gweddi. Wrth wrando llawer gweddi, gellid meddwl mai Duw sydd eisiau ei gyfnewid, ac nid dyn. Mae rhai o'n darllenwyr yn ddiameu yn cofio am gyfarfodydd gweddi yn amser sychder neu wlybaniaeth, er darbwyllo Duw i newid yr hin. Yn amser rhyfeloedd (fel yn y rhyfel diweddaf yn Neheu Affrica), mae'r ddwy blaid yn arfer erfyn ar Dduw i fod o'u tu. Mewn newyddiadur yn ddiweddar gwelsom weddi wedi ei chyfansoddi gan brif gaplan y fyddin ar ran y milwyr oeddent yn dychwelyd o Affrica. Nid y weddi ei hun a dynodd ein sylw penaf, er hyny, ond y nodyn canlynol ar ol y weddi:—"Gellir cael y weddi hon, yr hon sydd wedi cael cymeradwyaeth Archesgob Caergaint a'r Câd-lywydd, trwy oruchwylwyr arferol y Llywodraeth." Mae'r syniad fod cymeradwyaeth y ddau uchod yn angenrheidiol er gwneud y weddi yn dderbyniol yn ddigrif

i'r eithaf. Rhaid i Dduw, at yr hwn fel yr arferem dybied y dylid cyfeirio pob gweddi, bellach foddloni ar yr ail (neu'r drydedd) sedd.

Rhyfeddol yw'r cyfnewidiad sydd wedi cymeryd lle yn marn gwyddonwyr am y berthynas rhwng crefydd a gwyddor yn ystod y blynyddau diweddaf. Tua 25 i 30 mlynedd yn ol, ymddangosai fel pe fod dyddiau crefydd, o dan ddyrnodiau celyd Tyndall, Huxley ac ereill, eisoes wedi eu rhifo. Y pryd hyny mater oedd y cwbl, ac yr oedd yr angenrheidrwydd am Dduw wedi diflanu. Erbyn hyn mae'r safle wedi cyfnewid yn hollol; ac y mae gwyddonwyr blaenaf ein dyddiau ni bellach yn cydnabod nad yw gwyddor yn gwneud i ffwrdd a'r angenrheidrwydd am Dduw. Hyn yw swm a sylwedd traethodyn ar "Y Duw nid adwaenir" gan Syr Henry Thompson, un o wyddonwyr blaenaf y dydd. Nid y gair "Duw" a ddefnyddir ganddo ef, er hyny, am Achosydd pob peth, ond yn hytrach "Y Gallu Anfeidrol a Thragwyddol oddiwrth yr hwn y mae pob peth yn deillaw"; a dywed na fydd i'r "Gallu" hwn i barhau yn anadnabyddus, ond y daw dynion yn raddol, fel y bydd eu cynheddfau yn cael eu datblygu, yn abl i ddeall ei ffyrdd yn well. Dywed hefyd nad yw'r dydd yn mhell pan y bydd y byd crefyddol wedi ymrestru o dan fanerau dwy blaid fawr yn unig—un yn sefyll dros ryddid meddwl ac ymarferiad o rinweddau crefydd; y llall yn wrthwynebol i unrhyw ddefnydd o'r rheswm mewn materion crefyddol—yr Eglwys Babaidd. Nid oes eisiau dyweyd gyda pha un o'r ddwy blaid y mae cydymdeimlad Syr Henry—gyda'r un blaid ag y mae cydymdeimlad darllenwyr yr YMOFYNYDD.

Yr oedd yr ysgrifenydd yn ddiweddar mewn cwmni cynwysedig o nifer o fobl ieuainc perthynol i'r Methodistiaid Calfinaidd. Yn nhgwrs yr ymddiddan gofynodd, Sawl un o honynt oedd erioed wedi darllen y Gyffes Ffydd? Dim un! Yr ysgrifenydd, a hwnw yn Undodwr tlawd, yn mhell tuallan i amodau yr addewid, oedd yr unig un allai ddweyd ei fod wedi darllen y llyfryn, ac yn gwybod rhywbeth am ei hanes a'i gynwys. Ac nid rhywbeth ar ei ben ei hun ydyw'r engraifft sydd wedi ei chrybwyll. Mae'n amlwg ei fod yn ddiffyg cyffredin yn y Cyfundeb, oblegid pasiwyd yn ddiweddar yn Nghymdeithasfa'r Gogledd, fod y Gyffes Ffydd i gael ei hargraffu mewn llythyren frasach, er mwyn ei gwneud yn fwy darllenadwy. Ond ai dyna y gwir reswm am y diffyg dyddordeb ynddi, ac a ydyw yn debyg y bydd llythyren fras yn ddigonol i sicrhau i'r Gyffes fwy o sylw oddiwrth Fethodistiaid ieuainc yr oes hon? Fyddai hi ddim mwy i'r pwrpas pe byddai awdurdodau y Gymdeithasfa yn ystyried beth yw *date* y Gyffes, a beth yw ei gwerth fel crynodeb o dduwinyddiaeth yn ngwyneb y cyfnewidiadau dirfawr sydd wedi cymeryd lle oddiar y

flwyddyn 1823? A ydyw y Gyffes yn nghyd a llyfrau eraill a gyhoeddwyd o dan nawdd y Methodistiaid tua dechreu'r ganrif ddiweddaf, meigis Geiriadur Charles; Drych Athrawiaethol Thomas Jones, Dinbych; Elias ar Gyfiawnhâd, &c., yn gyson a gosodiadau *Driver's Introduction to Old Testament Literature*, a *Newton Clarke's Outlines of Christian Theology*, sydd wedi eu gosod i lawr i'w hastudio gan ymgeiswyr am yr Arholiad Cymdeithasfaol? Fyddai hi ddim gwell i edrych i'r cyfeiriad yna er mwyn ffeindio allan y rhesymau paham nad yw'r Gyffes yn cael ei darllen? Myn Eglwys Lloegr sylw i'w chredoau trwy eu gwneud yn rhan o'r gwasanaeth eglwysig; ond atolwg, faint sydd yn credu ynddynt ar ol eu canu? Attebed y lleisiau amrywiol hyny o fynwes yr Eglwys ydynt wedi gwneud mwy dros heresi nag un cyfundeb arall yn y wlad am ddeugain mlynedd. Llythyren fras! Pe b'ai hono yn ddigon i adgyfodi ac i roddi bywyd newydd i lyfr, faint o gyffro gymerai le ar dderbyniad y newydd yn seleri ac *attics* tai cyhoeddwyr Paternoster Row, lle y gorwedd miloedd o hen lyfrau yn bentyrau ar eu gilydd, wedi myned allan o *ddate*, ac yn llythyren farw er ys blynyddoedd lawer, ac o bosibl mwy o lyfrau duwinyddol nag un dosbarth arall. Bydd *experiment* y Gymdeithasfa, os try allan yn llwyddianus, yn golygu *fortunes* i Macmillan, Longmans, a Hodder a Stoughton, &c.

Ydyw mae llyfrau yn myned allan o *ddate* ac yn cael eu anghofio, ac mae personau enwog, hefyd, yn cyfarfod a'r un dynged, hyd yn nod cyn y byddont feirw. Adgofiwyd ni yn ddiweddar o hyn gan farwolaeth Dr. Angus, gweinidog enwog unwaith gyda'r Bedyddwyr, a phenaeth eu coleg yn Regent's Park, a gymerodd le Awst 28ain, 1902, pan yr oedd yn 86 oed. Yr oedd wedi dianc yn rywffordd o sylw y cyhoedd am flynyddoedd lawer. Tua'r flwyddyn 1870 yr oedd ei glod yn fawr trwy'r wlad fel pregethwr ac awdwr llyfrau poblogaidd ar Iaith a Llenyddiaeth Saesneg. Yr oedd ei gysylltiad a Phrifysgol Llundain fel arholwr yn y gangen hono yn gwneud ei lyfrau yn boblogaidd gyda miloedd o fyfyrwyr. Yr oedd yn aelod hefyd o'r cwmni fu yn adolygu Cyfieithiad y Testament Newydd; ac fel duwinydd daeth ei enw i gyhoeddusrwydd neillduol fel awdwr y *Bible Handbook*. Aeth y llyfr hwn trwy nifer fawr o argraffiadau; defnyddiwyd ef fel *Text Book* yn Ngholeg Caerfyrddin am flynyddau, a chyfieithwyd ef i'r Gymraeg gan Dr. Morgan (Lleurwg), Llanelli. Ond yr oedd yna ddiffyg yn y llyfr na ddarfu i'r awdwr ei symud, ac nad oedd yn credu yn ei symud chwaith. Nid oedd Dr. Angus yn bleidiwr cynydd mewn crefydd. Daliodd wrth yr hen angorfeydd trwy ei oes, ac fel canlyniad ni chymerodd gyfrif mewn un argraffiad o'r feirniadaeth newydd ar y Beibl. Beiddiodd, fel y clywsom Moncure Conway yn dweyd unwaith, i boeri yn ngwyneb y *Zeitgeist*—yspryd yr oes, ac efe gafodd y gwaethaf. Anghofiwyd ei lyfr; a phan y bu yntau farw, ymddangosai i'r rhai a wyddent am y clod

oedd iddo ddeg mlynedd ar hugain yn ol, ei fod wedi adgyfodi i farw drachefn.

Engraifft arall eto o ddyn llawer mwy galluog na Dr. Angus sydd wedi colli ei boblogrwydd ac wedi cilio braidd o bob sylw cyhoeddus ac hefyd yn fyw heddyw. Yr ydym yn cyfeirio at Dr. Alexander Bain. Anghofiwyd Dr. Angus am fod ei dduwinyddiaeth allan o *ddate*. Anghofir Dr. Bain am fod ei athroniaeth allan o *ddate*. Tua'r flwyddyn 1865 yr oedd ef yn un o oraclau ysgol fawr mewn athroniaeth a gyfrifent John Stuart Mill a George Grote yn mhlith ei phleidwyr. Bu ei dylanwad yn oruchaf yn y prif ysgolion am flynyddau, ac yr oedd yn ddigon nerthol i atal etholiad Dr. Martineau i fod yn broffeswr athroniaeth yn *University College* Llundain, yn 1866, a hyny oddiar ragfarn yn ei erbyn am ei fod yn perthyn i ysgol wrthwynebol. Ysgrifenodd Dr. Bain luaws o lyfrau ar Athroniaeth, ac yn eu plith *Mental and Moral Science*, ag y mae llawer o honom ni yn y dyddiau gynt wedi bod yn chwysu wrth ei ben. Cymaint o werth a osodid ar y llyfr hwn yr adeg hono gan awdurdodau Prifysgol Llundain, fel nad oedd yn bosibl i fyfyriwr oedd wedi digwydd astudio athroniaeth mewn awyrgylch wahanol foddloni yr arholwyr. Yr oedd y fath beth ag athroniaeth iawnffyddol yn anhebgorol, a Dr. Bain oedd yr oracl anffaeledig i eistedd wrth ei draed. Nid oes eisiau dweyd wrth y rhai sydd yn gyfarwydd a'r gangen hon am y cyfnewidiad dirfawr sydd wedi cymeryd lle oddiar hyny. Mae cyfundrefn athronyddol Mill a'i ysgol ar ei phrif llinellau wedi gorfod cilio yn anobeithiol o flaen damcaniaethau Spencer ar un llaw, a'r Hegeliaeth newydd ar y llaw arall. Gorphwys enwogrwydd Grote heddyw ar ei Hanes Groeg, ac erys coffadwriaeth John Stuart Mill yn anwyl o herwydd ei gymeriad swynol a'i ddylanwad fel llenor, gwleidyddwr, a diwygiwr cymdeithasol. Tynged Dr. Bain yw cilio i'r cysgod gyda'r gyfundrefn o Athroniaeth oedd e' wedi cysegru ei holl alluoedd i'w hamddiffyn.

"Yn y dydd y bwytâi di o hono, gan farw y byddi farw." Mae y bygythiad yn golygu marwolaeth naturiol yn ddiameu. Dyna'r wedd yr edrychid arno gan yr Iuddewon trwy eu hanes fel mae addysg y Synagog yn gosod allan. Dyna syniad Paul hefyd fel plentyn y Synagog. Nis gall fod amheuaeth gyda golwg ar ei eiriau yn Rhuf. 5: 12—14: "Megis trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod; ac felly yr aeth marwolaeth ar bob dyn, yn gymaint a phechu o bawb. . . . Eithr teyrnasodd marwolaeth hyd Moses, ie, arnynt hwy y rhai ni phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda"; ac mae'r un peth yn amlwg mewn ymadroddion ereill o'i eiddo. Ac athrawiaeth Genesis 3, a'r Epistol at y Rhufeiniaid ydyw sylfaen duwinyddiaeth iawnffyddol yr Eglwys Gristionogol. Gesyd

Awstin, Calfin a Luther bwys neillduol ar y berthynas agos sydd rhwng pechod a marwolaeth naturiol. Mae Milton ar ddechreu "Coll Gwynfa" yn canu am

> "The fruit
> Of that forbidden tree whose mortal taste
> Brought death unto the world
> And all our woe."

Dywed *Hyfforddwr* Charles fod y "marw" yn Genesis 2 : 17, yn golygu marwolaeth naturiol. Ceir yr un syniad yn *Hodge's Outlines of Theology*, tud. 236, yn *Nhraethodau Duwinyddol Dr. Lewis Edwards*, tud. 169, ac mae yn gwneud i fyny un o golofnau y dduwinyddiaeth boblogaidd yn yr holl enwadau. Ond rhyfedd fel mae y colofnau yn rhoddi ffordd o un i un y dyddiau hyn. Cymerwch y llyfr y cyfeiriwyd ato o'r blaen—*Outlines of Christian Theology*, gan Newton Clarke. Yr ydym wedi methu gweled ynddo unrhyw gyfeiriad o gwbl at y syniad, er fod yno adran ar y gosp sydd yn dilyn pechod. Mae Paul yn cael ei anwybyddu yn hollol yn y mater hwn. Dywed Mr. Adams, Lerpwl, yn ei *Paul yn Ngoleuni yr Iesu*:—"Os yw Paul fel y tybir, yn cysylltu marwolaeth [naturiol] a phechod Adda . . tueddir ni i dybied fod ei ymdriniaeth yn gamarweiniol, ac o ganlyniad nas gall ei ddamcaniaeth fod yn ddihyspyddol, yn arosol a therfynol ar y pwnc." Yr oedd yn arwydd obeithiol i ni i glywed y Parch. Dr. Williams, Capel Nonni, yn taflu ymaith y syniad yn ei ffordd effeithiol ei hun yn ei bregeth goffadwriaethol am y Parch. T. P. Phillips, yn Seion, Llandyssul. Yr oedd y bregeth ar ei hyd yn llawn o bethau da, ac yn deilwng o safle uchel y pregethwr fel un o areithwyr mwyaf hyawdl y pwlpud Cymreig. Yr oedd yna nodwedd arall hefyd yn y bregeth a ddangosai fod tôn newydd yn ymledu dros fywyd crefyddol Cymru. Ar ddiwedd y bregeth, yr hen *ffashiwn* oedd gwneud apêl at y gwrandawyr, fel eu gelwir, a'u cymhell i dderbyn telerau trefn yr achub am eu bywyd. Gwnaeth Dr. Williams apêl wresog a difrifol, ond yr oedd hi at bawb, yn aelodau a gwrandawyr, yn saint a phechaduriaid *i fod yn ddynion da*, heb son am un drefn, dim ond cariter personol, fel y deallem ni ef, yn unig sail i iachawdwriaeth. Onid ydym ni yn neshau yn raddol at yr amser bendigedig pan y byddwn ni oll

> "One in the freedom of the truth,
> One in the joy of paths untrod,
> One in the soul's perennial youth,
> One in the larger thought of God?"

YMWELIAD YR ARCHESGOB A LLANBEDR.

Gan y Parch. R. J. Jones, M.A.

Ar gais un o bleidwyr gwresocaf Yr Ymofynydd yr wyf yn ymgymeryd a thraethu fy llèn ar ymweliad Dr. Temple, Archesgob Caergaint â thref hynafol Llanbedr-Pont-Stephan. Nid yn fynych y cawn ni y cyfleusdra i roesawi yr archesgobion. Cawn fod eu hymweliadau â Chymru yn debyg i ymweliadau angylion, yn *few and far between*. Gwir i'r Archesgob Benson fod yn Llanbedr tua dwyflynedd-ar-bymtheg yn ol, ar achlysur gosodiad careg sylfaen y *Canterbury Building*. Cyn y cawn ni un engraifft arall, rhaid pontio'r canrifoedd yn ol hyd 1188, pan fu'r Archesgob Baldwyn yn Llanbedr yn pregethu o blaid y Croesgadau, neu ryfeloedd y Groes.

Dyddorol fydd ceisio'r Paham yn y cysylltiad hwnw. Nid yr un bob amser yw'r achos a'r achlysur o beth—yr achos proffesedig a'r achos gwirioneddol. Yr oedd y Cymry gynt, fel y maent heddyw, o yspryd gwir grefyddol; ac o ran eu crefydd fel y maent heddyw o ran eu gwleidyddiaeth—dipyn yn anibynol. Er fod Lloegr er dyddiau Sant Awstin wedi myned yn Babyddol hollol, honai Cymru hynafiaeth uwch a chysylltiadau purach â'r hen ffynon yn Jerusalem, cyn iddi gael ei llwydo a'i llygru gan ddylanwadau Rhufain. Awydd mawr breninoedd Lloegr drwy'r blynyddoedd oedd darostwng Cymru yn grefyddol fel yr oedd wedi ei darostwng mewn ystyr yn wleidyddol—cael yr Eglwys Gymreig o dan lywodraeth Caergaint, fel yr oedd Caergaint dan lywodraeth y Pab. Gwyddai yr awdurdodau yn Lloegr nad oedd dim o'r teimladau goreu gan y Cymry at Archesgob Baldwyn, am ei fod yn gwthio esgobion estronol arnynt, ac yn gwrthod iddynt eu dewis ddyn, Gerallt Gymro—Giraldus Cambrensis; ond yn 1188, fe'u gorchfygwyd trwy ddichell. Tynwyd ysgadenyn coch yn groes i'w llwybr a pharodd hwnw iddynt golli'r *scent*, fel yr aeth Cymru yn yn mhen amser yn Babyddol hefyd. Yr oedd rhyfeloedd y Groes yn cynhyrfu holl wledydd cred ar y pryd, a miloedd ar filoedd o bob man yn ymrestru dan faner y Groes, gyda'r bwriad i fyned allan i achub y Bedd Sanctaidd yn Jerusalem o ddwylaw halogedig y Tyrciaid Mahometanaidd; a chredai Harri Frenin, yr hwn oedd yn ddyn cyfrwys, y byddai'r cynllun yn hollol y peth i dynu sylw y Cymry, ac i alw allan holl adnoddau eu hysbryd crefyddol a rhyfelgar, a thrwy hyny brofi yn effeithiol i gydio'r ddolen olaf yn nghadwynau eu caethiwed. Er mwyn llwyddiant yr achos yr oedd yn rhaid cael help Gerallt. Gosodwyd y mater ger ei fron yn y modd mwyaf deniadol posibl, ac er mwyn cael y plufyn iawn ar y bach addawyd iddo swydd anrhydeddus, cawsai fod yn arweinydd i'r archesgob ar ei daith drwy Gymru. Hud-ddenwyd Gerallt felly, a llyncodd y *bait*. Derbyniodd arwydd y Groes, rhoddodd ei hun i fyny i wasanaeth ei feistr newydd, defnyddiodd ei hyawdledd, yr

hwn oedd fel ei boblogrwydd, yn fawr iawn, i ddarbwyllo'r brodorion. Buwyd yn llwyddianus hwnt i bob dysgwyliad yn Ngheredigion a Phenfro. Bu Baldwyn yn pregethu yn Llanbedr, a Gerallt Gymro feallai yn cyfeithu, a Sion o Dy Gwyn ar Daf a Seisyllt o Ystrad Fflur yn cynorthwyo. Wedi dallu llygaid y Cymro enwog daeth yn waith hawdd iddo yntau hud-ddenu ei gyd-frodorion.

Dydd ymweliad yr Archesgob Temple â Llanbedr oedd Hydref 3ydd, 1902, a'r achlysur oedd dathliad sefydlu'r Coleg yn 1827, driugain a phymtheg mlynedd yn ol. Ymddengys yr ymweliad yn ffaith hynod i'r rhai sydd yn cofio digwyddiadau deugain mlynedd yn ol. Y mae'r archesgob heddyw yn wr oedranus—wedi ei eni Tachwedd 20, 1821—ac ar gyfrif ei oed a'i safle yn yr eglwys, nid oedd amheuaeth i fod na chawsai dderbyniad tywysogaidd mor bell ag yr oedd o fewn gallu "Gwyr Llanbed." O'r tu arall, ni ddylid synu os oedd yno rai, pan yn galw y gorphenol i gof, yn edrych ar yr ymweliad gyda theimladau cymysg—*Timeo Danaos dona ferentes.*

Y mae'r awyrgylch yn sicr wedi newid yn fawr, erbyn heddyw, a gwynt mwy meiriol yn chwythu, ac y mae yn naturiol holi, Beth sydd wedi digwydd? Beth all fod yr ystyr? A ydyw tymor gwyngalchu hereticiaid wedi dod—y milflwyddiant wedi dechreu! Ni wna un wenol Wanwyn mae'n wir; ond crea ddisgwyliad yn naturiol —sylwer ar dderbyniad y Proff. Henry Jones, Ll.D., gwrthodedig y M.C., yn Rhuthyn; y Dr. Agar Beet, â'i adenydd duwinyddol wedi eu cropio, gyda gwyr y Chautauqua yn Aberystwyth; ac nid y lleiaf, Frederick Temple, archesgob Caergaint, yn cael ei dderbyn gyda brechiau agored yn Llanbedr, a chan yr esgobion a holl eglwyswyr y Coleg—ie, yn y Coleg, sylwer, lle cafodd y Dr. Rowland Williams, Cymro galluocaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ei fwrw allan o hono yn 1862 am heresi—am ddywedyd yn un peth nad oedd Jonah yn berson hanesyddol, ac nad oedd y llyfr sydd ar ei enw yn y Beibl ddim wedi ei ysgrifenu ganddo; nad Daniel y Prophwyd oedd awdwr llyfr Daniel. O mor wir yr hen air, fod y peth sydd gaugred mewn un oes yn dyfod yn uniongred mewn oes ddilynol; yr hyn oedd yn wrthodedig gynt o enau Rowland Williams, yn cael ei ddysgu fel gwirionedd cyffredin gan athrawon presenol Coleg Dewi Sant; yr hyn oedd, o bolisi, ac nid yn angenrheidiol o argyhoeddiad, yn cael ei anghymeradwyo gan Thirlwall, esgob Tŷ Ddewi gynt, yn derbyn sêl cymeradwyaeth o dan law Temple, archesgob Caergaint. Felly y mae beddau'r prophwydi yn cael eu haddurno. *O tempora! O mores!*

Y mae stori yr *Essays & Reviews* wedi ei hadrodd yn Yr Ymofynydd yn ddiweddar, fel nad oes achos mynd drosti eto; ond feallai y goddefwch i mi air. Frederick Temple oedd awdwr y traethawd cyntaf yn yr *Essays & Reviews*, ac felly yr oedd yn un, a'r blaenaf hefyd, o Saith Wyr erlidiedig Eglwys Lloegr yn 1860; a'r peth sy'n ein synu ni heddyw wrth adolygu'r traethodau yw, sut y gallasai peth mor ddiniwed achosi y fath gynwrf. Byddai yn anhawdd dychymygu am saith o ddysgedigion goleuedig yn cyhoeddi dim gwreiddiol

yn cynwys llai o achos tramgwydd. Nid oedd dim ynddynt yn newydd i'r ysgolhaig; ond fe drwynwyd heresi gan y gwaedgwn eglwysig, a gwelwyd fod perygl yn bygwth i'r *Church's One Foundation* y cenir cymaint am dani. "Pa le yr oedd Gogoniant Dadguddiad os oedd i gael ei suddo yn Addysg y Byd? yn ol awgrymiad Dr. Temple yn ei draethawd. Pa le yr oedd ei ystorfa gysegredig, os nad oedd yr Ysgrythyr oll yn wir? fel y gellir casglu oddiwrth draethawd y Dr. Rowland Williams. Pa le, ei sicrwydd, os nad yw ysprydoliaeth yn anffaeledig? Pa le, ei awdurdod, os yw Daeregwyr i gael galw Moses i gyfrif? Yr oedd y rhai hyn oll yn holiadau naturiol; ac yn awr ei hofn ceisiodd Uniongredaeth Eglwysyddol gysgod i ymguddio oddiwrth y terfysg yn Llysoedd y Gyfraith."—*Martineau.*

Ni ddylid anghofio fod Saith Wyr Dewrion, awdwyr yr *Essays and Reviews*—y *Septem contra Ecclesiam*—wedi syrthio yn gyffelyb dan farn gondemniol y cyhoedd. Yn erbyn y llyfr gyrwyd Deiseb gwrthdystiad i Archesgob Caergaint—Deiseb gydag enwau deng mil o offeiriaid yr Eglwys; ac yn erbyn y llyfr yr anfonwyd allan y *Manifesto* Esgobol gydag enwau yr holl esgobion (ond fod rhai o honynt wedi eu *forgio*) yn ei gyhoeddi yn anathema! O'r saith troseddwyr, nid y lleiaf oedd awdwr y Traethawd cyntaf—Frederick Temple—ar *The Education of the World*: ac yn fy ngolwg i, traethawd da odiaeth ydyw, a gwerth ei ddarllen heddyw gan bob un sydd yn gosod mwy o bwys ar beth sydd wir nag ar beth sydd yn unol a'i gyffes a'i gredo. Ei bechod amlwg oedd, ehangu terfynau tiriogaeth y Bôd Mawr y tuallan i gyffiniau Gwlad Canaan, a gwneuthur y byd i gyd yn gysegredig, a'i bobl oll yn wrthrychau ei ofal a'i gariad Ef; ond yr oedd y fath addysg yn difuddio Dadguddiad o'i ogoniant ac felly yn ddim llai na heresi ddamniol. Am hyny fe geisiwyd bwrw yr awdwr allan o'i swydd fel prifathraw Ysgol Rugby.

Pan beidiodd y twrw ychydig fe dynodd yr Anrhydeddus W. E. Gladstone yr Eglwys yn ei ben drwy benodi Temple i esgobaeth Exeter (1869), a thorodd yr ystorm allan o'r newydd—ystorm oedd mor boeth a'r un o'r blaen ond nid mor wasgaredig. Desgrifiodd Pusey, tadmaeth yr Eglwysyddiaeth ddiweddar, y penodiad fel yr anfadwaith mwyaf ysgeler a gyflawnodd un prifweinidog erioed. Wrth gwrs nid ystyriai Pusey ei hunan yn heretic; pobl ereill oedd yn gwneuthur hyny. Ond fe godwyd Temple wrth ei wneuthur yn esgob o gyrhaedd pob niwed ac allan o swn pob cyfarth. Dechreuwyd ei barchu bellach. Daeth yn Esgob Llundain yn ddiweddarach, ac wele fe (1896) yn Archesgob Caergaint, ac yn wrthrych parch ac edmygedd cyffredinol. Nid oes prawf ei fod wedi newid ei farn, o bosibl nad yw mor anturus a geneu-agored yn traethu ei farn. Nid yw wedi bod yn hollol ddistaw fodd bynag. Yn 1885 fe gyhoeddodd ei ddarlithiau ar *The Relations of Religion and Science*, a dywedir eu bod yn deilwng o'r awdwr a'i sefyllfa. Ni ddylai fod 'run cweryl cydrhwng gwyddor a chrefydd a thrueni fod eu pleidwyr wedi bod yn cynal cweryl cyhyd. Eiddo Duw yw pob gwirionedd ac ni ddichon fod un anghysondeb cydrhyngddynt. "Y mae'r sawl sydd yn

ofni unrhyw ymchwiliad," ebe Temple, "pa un bynag fyddo ai philosophyddol, ynte gwyddonol neu hanesiol, yn euog o fradwriaeth yn erbyn y ffydd. A chan hyny, ni ddylai fod dim yn fwy derbyniol genym na lledaeniad gwybodaeth o unrhyw a phob ryw fath."

Heddyw y mae'r ymweliad wedi myned yn bwnc hanes, a gall yr Archesgob ddywedyd gyda Cæsar, *Veni, vidi, vici*,—Daethum, gwelais, gorchfygais. Ond beth fydd y ffrwyth? Mae'r disgwyliad am ugain mil o bunau! Ond a ddeuant? Creodd yr ymweliad frwdfrydedd mawr—ond a ddeuant? Y mae gan eglwyswyr gyfoeth ddigon; yr anhawsdra fydd cael gafael yn yr allwedd a ddichon agor eu calonau—allwedd tebyg i'r un a agorodd galon Lydia.

Nid anghofiwyd rhoddi gwybod i'r Archesgob fod Cristionogaeth Cymru yn henach nag eiddo Lloegr. Dyma rai o eiriau anerchiad y Proff. Hugh Walker, Maer Llanbedr: "Rhaid i olynyddd St. Awstin yn wastad wisgo yr adlewyrchiad o ogoniant tair canrif ar ddeg o flynyddoedd gorlawn o hanes; ond feallai y gwna eich Anrhydedd, mewn *Corporation* Cymreig, faddeu tipyn o falchder naturiol pan yn eich derbyn yn nghartref Cristionogaeth sydd yn fwy hynafol hyd yn nod na hono."

Cafwyd pregeth ac araeth *postprandial* gan yr Archesgob. Nid oedd dim mor bell ag y gallwn ni farnu oddiwrth yr adroddiadau yn galw am sylw neillduol oddi wrthym ni yn y naill na'r llall. Ni chyffyrddodd ag un pwnc o bwys mewn duwinyddiaeth na gwleidyddiaeth. Cafodd y Mesur Addysg lonydd a chafodd y pynciau llosgawl sydd yn aflonyddu'r Eglwys lonydd. Difyrwch i'r presenolion yn benaf oedd yr araeth ac o'r braidd y gallwn ystyried fod y bregeth yn werth i hen wr pedwar ugain ac un ddyfod mor bell i'w thraddodi. Testyn y bregeth oedd 1 Brenhinoedd 4: 29.—Doethineb Solomon. Gwybodaeth Solomon—gwybodaeth yr athronydd a efrydai'r natur ddynol oedd; un a geisiai amgyffrediad o'r hyn sydd mewn dyn a'r modd y ca dyn ei gyffroi. Gelwid y fath ddoethineb heddyw yn wyddor. Camsyniad diweddar yw cyfyngu'r *term* gwyddor i'r wybodaeth o natur ddifywyd, ac anwybyddu'r wybodaeth o'r natur ddynol. Nid oedd gwybodaeth Solomon y fath uwchaf o wybodaeth; nid oedd yn wybodaeth ysprydol, a methodd gadw Solomon rhag syrthio yn druenus. Pleidiai'r Archesgob wyddoniaeth amlgangenog—yr addysg fydol a'r addysg grefyddol. Ehangid y deall felly, dysgyblid y meddwl, a chyrhaeddid yr hyn a fyddai er cysur a lles uwchaf dynoliaeth.

Y mae genym Gyfaill yr hwn sydd yn ein hadnabod yn well nac yr adnabyddwn ein hunain, yn ein caru yn well nac y carwn ein hunain, yn ein cynorthwyo pan nas gallwn gynorthwyo ein hunain, yn maddeu i ni pan nas gallwn faddeu i ni ein hunain, ac yn nghanol ein hanobaith dyfnaf enfyn i'n calonau anadl ddwyfol gobaith newydd.—J. F. Clarke.

CONTENTIO VERITATIS.*

Gan y Parch. W. Tudor Jones, F.R.G.S., Abertawe.

IV.—Beirniadaeth y Testament Newydd.

Mae awduron *Contentio Veritatis*, fel y sylwyd o'r blaen, wedi gwneud llawer o addefiadau (*concessions*) pwysig ar y cwestiwn o Feirniadaeth y Testament Newydd. Fy amcan yn yr erthygl diweddaf hon fydd cyfeirio at rai o honynt, a dangos eu hystyr a'u harwyddocâd. Mae pobpeth i'w enill wrth wynebu y gwirionedd a'i anhawsderau. Os ydym i wybod meddwl Crist, ac i amgyffred sylwedd Teyrnas Dduw, rhaid wrth ymchwiliad ac ymgais onest i ddeall bywyd Iesu yn ngoleuni ei oes ei hun, yn gystal ag yn ngoleuni y cyfnod ydym ni yn byw ynddo.

Nid yw Beirniadaeth Feiblaidd yn golygu rhywbeth sydd yn dinystrio y Beibl, ond rhywbeth sydd yn dadlenu meddwl y Beibl. Cred llawer o bobl y byddai Cristionogaeth ar ben pe byddent hwy yn cyfnewid eu golygiadau ar rai cwestiynau cysylltiedig â'r pwnc hwn. Yn ngolwg y bobl hyn mae y Beirniaid Beiblaidd yn elynion didosturi Cristionogaeth, ac yn treulio eu bywydau mewn ymdrechion diffrwyth i fyned o dan sylfaen y ffydd Gristionogol. O braidd nad oes rhyw fath o arswyd yn ymledu dros y gwersyll iawnffyddol, pan y sonir am honiadau Beirniadaeth Feiblaidd. Fel y dywed Mr. Allen yn y 5ed erthygl o'r llyfr hwn, "Mae ffydd mewn gwasgfa, defosiwn yn cael ei gythryblu, ac aelodau yr Eglwys Gristionogol yn cael eu dychrynu yn ddiangenrhaid."

Ond beth yw ystyr y gwaith i amddiffynwyr Beirniadaeth Feiblaidd? "Awgryma y geiriau ryddid—rhyddid oddiwrth gredoau wedi eu dihysbyddu, oddiwrth syniadau hynafol ydynt wedi myned allan o *ddate*. Mae beirniaid Beiblaidd yn bleidwyr cynydd gwyddorol, ac yn gwneud eu goreu i ryddhau meddwl dyn oddiwrth lyfetheiriau haerdybiaeth (*dogmatism*) sydd wedi colli ei gafael ar feddwl y byd. Nid yw eu gwaith, yn wir, wedi ei gwblhau, oblegid mae syniadau cyfeiliornus yn marw yn galed, ac mae golygiadau am y Beibl, nas gellir eu dal ar dir gwyddorol, yn parhau i dywyllu awyrgylch bywydau dynion. Ond yn y cyfamser, mae sylfaeni teml rhyddid wedi eu gosod i lawr, ac er nad yw yr adeilad wedi ei ddybenu, mae dynion yn mhob man yn tyru i fewn iddo." Mae y rhai hyn yn eiriau doeth. Dangosant fod yr ysgrifenydd yn hollol ymwybodol o'r angen i ddwyn Cristionogaeth o flaen y bobl mewn dull fyddo yn gydweddol a'u rheswm a'u gwybodaeth. Mae Mr. Allen yn hollol gymhwys ar gyfer y gwaith hwn, gan ei fod wedi treulio llawer o flynyddau i astudio y Testament Newydd, ac wedi bod yn athraw pobl ieuainc yn parotoi ar gyfer y weinidogaeth. Yn ei draethawd dyddorol rhydd i ni hanes dechreuad a thyfiant yr Efengylau, ac yna pasia yn mlaen i Epistolau Paul. Ymdrinia a'r cwestiwn o *werth* y Testament Newydd fel y canlyn :—

* Contentio Veritatis. Essays in Constructive Theology, by Six Oxford Tutors. London : John Murray, Albemarle Street. 1902.

(1) Gwerth Hanesyddol.

Mae gan y Testament Newydd ei werth fel hanes. Hebddo buasai bywyd Iesu i bob pwrpas yn anadnabyddus, a hanes bore y symudiad Cristionogol wedi ei oblygu mewn tywyllwch. Mae genym lythyrau Paul, wedi eu hysgrifenu tufewn i gyfnod o ddeng-mlynedd-ar-hugain ar ol marwolaeth Crist. Hefyd mae genym y pedair Efengyl. Amcan Beirniadaeth y Testament Newydd yw nithio y profion a chwilio y tystiolaethau gynhwysir yn yr Efengylau fel ag y gwneir ag unrhyw gynyrch llenyddol arall wedi dyfod i lawr o'r hen oesau. Hyny yw, ceisia gael allan sut mae'r ysgrifeniadau wedi cael eu dechreuad, a beth yw eu hystyr yn eu perthynas a bywyd yr oes yn yr hon y cawsant eu dechreuad.

Mae gan y Testament Newydd, ynte, ei werth hanesyddol, ond mae'r gwerth hwnw i gael ei sicrhau trwy ddeall yr oll ellir ei ddeall. Ni cheisia Beirniadaeth wneud dim yn llai na chael allan ystyr bywyd ac addysg Iesu fel maent yn cael eu hadlewyrchu gan wahanol ysgrifenwyr y Testament Newydd. Yn sicr nis gall hyn wneud cam a gwir grefydd. Heb y dull hwn byddai ein gwybodaeth o'r Testament Newydd yn amddifad o bob gwerth arosol.

(2) Gwerth Athrawiaethol y Testament Newydd.

Mae wedi bod am oesau lawer, ac y mae heddyw, yn safon cred ac yn faen prawf athrawiaethau gau. Mae y gwahanol sectau wedi codi trwy fod gwahanol egluriadau wedi eu rhoddi i eiriau y Testament Newydd. Ymgais ysgolheigion Beiblaidd yw cael gafael ar y gwir esponiad. Mae yr hen yn annigonol, mewn duwinyddiaeth yn gystal ag mewn gwyddor hanesyddol. Nid yw duwinyddiaeth yn wahanol oddiwrth ryw wybodaeth arall. Unig amod ei bywyd yw ei bod yn tyfu, ac yn cymhwyso ei hun at angenion a gwybodaeth gynyddol oes ar ol oes.

(3) Gwerth Crefyddol y Testament Newydd.

Mae hwn yn fwy nag hyd yn nod y gwerth duwinyddol. Gall dynion ddal syniad, a glynu wrth ryw ddamcaniaeth neu gilydd, heb fod yn ddim gwell o hyny. Ond mae gwerth crefyddol y Testament Newydd yn golygu fod dyn yn cael ynddo fywyd Crist, a'r datguddiad o'r personoliaeth Ddwyfol. Daw yno wyneb yn wyneb a dyn wedi ei lanw a'r Dwyfol, a'r hwn a ddangosodd trwy ei addysg, ac yn ei fywyd a'i farwolaeth yr hyn mae pob bywyd dynol wedi ei olygu i ddyfod iddo. Dyma werth uwchaf y Testament Newydd—y gipolwg a rydd i ni ar fywyd Iesu.

Yn lle ei ddinystrio, mae beirniadaeth ddiweddar yn dwyn y gwerth hwn i'r golwg yn glirach nag erioed o'r blaen. Gwahana y diflanol oddiwrth yr arosol. Dywed am natur ddiflanol y chwedlau a'r dychymygion ydynt wedi ymgasglu oddiamgylch enw y sylfaenydd mawr, a dengys i ni yn mha ffordd yr oedd ei weledigaeth ef yn gyfyngedig. Ond nid dyna'r oll. Dengys yn mhellach fod Iesu yn esiampl i ni yn y ffaith ei fod wedi datguddio i ni Dadoldeb Duw neu Fabolaeth dyn mewn gradd uwch na neb o'i flaen nac ar ei ol. Mae genym ynddo arddangosiad o ddyn yn ymgolli o ran ei ewyllys ei hun yn ewyllys Duw—un a deimlodd fel na theimlodd neb arall erioed angenion a thrueni dyn, ie, a'i bosibirwydd dwyfol hefyd yn gystal a hyny.

Clywn yn y Testament Newydd lais yn ein galw oddiwrth bechod a thrueni at wasanaeth a chariad Duw a dyn. Nid yw ei werth yn gynwysedig mewn athrawiaethau ond mewn egwyddorion ; ac mae egwyddorion dyfnaf y natur ddynol i'w cael yn mywyd Iesu. Yno y gwelwn fywyd wedi ei fyw mewn cariad a gwasanaeth ac wedi ei gysegru i Dduw a daioni ; a phan yr edrychwn ar y bywyd yna yn ngoleuni rheswm a chydwybod, ni a deimlwn y prydferthwch a'r cadernid sydd yn ei nodweddu.

Nid yw yr addysg ynte a gawn ni yn yr Efengylau yn gyfundrefn o foeswersi ellir eu cymhwyso yn eu manylion at y bywyd dynol heddyw. Mae yn fwy na hyny. Mae yn fynegiant o bersonoliaeth a sylweddoldodd y syniadau hyn yn ei fywyd ei hun. Wrth brisio gwerth y bywyd hwnw rhaid i ni gymeryd i ystyriaeth y personoliaeth yn gystal a'r addysg.

Beirniadaeth ddiweddar sydd yn gwneud hyn yn eglur i ni. Mae'r hen ffordd o edrych ar bethau yn diflanu o'r golwg. Yr oedd hono gymaint allan o gydweddiad a rheswm a chydwybod. Nid yw yn bosibl i ddyn i gael ei dderchafu, ei sancteiddio a'i achub trwy gredu mewn pethau nad oes unrhyw berthynas rhyngddynt a phrofiad dynol. Dengys Beirniadaeth ddiweddar i ni rywbeth anfeidrol well; datguddia i ni awdwr a pherffeithydd ein ffydd fel dyn—wedi ei lenwi a Duw, yr hwn a fu byw fywyd o gariad a hunanaberth yn y byd; a dysg i ni yn mhellach, y gallwn ddyfod i adnabyddiaeth o ddirgelwch ei fywyd yn ol y mesur y gwnawn ni ewyllys Duw fel yr oedd Ef yn ei gwneud. Mae yr hen elfenau anaturiol yn nuwinyddiaeth yr eglwys yn diflanu, ac yn eu lle mae egwyddorion mawrion yr Efengylau—Tadoldeb Duw a Maboliaeth ddwyfol dyn yn dysgleirio allan mewn llewyrch sydd yn ymlid pob peth arall i'r tywyllwch.

NYTH Y FRAN.

Y mae natur wedi planu mewn dyn ac anifail "chwant bwyd." Dyma'r peth cyntaf wna'r baban newyddanedig, chwilio am luniaeth. Dyma ymdrech fwyaf dyn drwy ei oes, ymofyn am ymborth. Dyma sydd yn cyfrif am symudiadau di-dor pob anifail yn yr anialwch; dyma'r esponiad o droion a gwrthdroion diflino'r milyn anweledig sy'n crynu wrth ddôr diddymdra—chwant bwyd. Y mae rheswm yn fynych yn gwyro, ac weithiau yn gadael ei swydd yn hollol, ond am

REDDF,

y mae hi bob amser, nos a dydd, yn nghwsg ac yn effro, yn sefyll ar ei gwyliadwriaeth, yn *sentry* sydd bob

amser *on duty* wrth borth bywyd. Y mae'r planigyn yn tynu maeth o'r awyr ac o'r ddaear heb yn wybod iddo ; ac y mae'r anifail yn bwyta, nid am ei fod yn gwybod y bydd farw onis gwna hyny, nid am ei fod yn ymwybodol fod yn rhaid iddo wrth luniaeth cyn y gall gynyddu yn ei gorff, a dàl yn gryf i ymladd "ymdrech bodolaeth." Y mae'r baban yn y cryd yr un fath ; ydyw, ac y mae'r dyn iach yr un fath hefyd ; y mae yn cymeryd lluniaeth am fod ganddo *archwaeth* at luniaeth, ăm ei fod yn *mwynhau*'r "trugareddau." Pe bai natur yn gadael i'n

RHESWM

i ofalu am ein iechyd, ac am ein cyflwr corfforol, buasai darfod am danom ar ffrwst ; a buan y diflanai yr hil oddiar wyneb y ddaear. Y mae pob plentyn yn hoff o felusion. Y mae y chwant am siwgr braidd yn nwyd ynddo. Flwyddi yn ol, arferid credu fod hyn yn arwydd o *degradation*—fod bwyta *sweets* yn ddiraddiol i'r eithaf i gorff a meddwl plentyn iach. Credid fod y nwyd hon am felusion yn annaturiol. Ond erbyn hyn y mae gwyddoniaeth yn dysgu nad yw y plentyn ond yn dilyn galwad greddf—greddf sydd ganmil mwy gwybodus na rhieni'r plentyn. Heddyw, gwyddis yn dda mai siwgr yw'r peth goreu all plentyn gymeryd i gynal gwres a nerth ei gorff. Ydyw, y mae greddf yn gryfach na gwyddor. Mor gryf yw greddf mewn dyn fel ag i'w arwain weithiau tuhwnt i derfynau cymedroldeb. Y mae natur yn hael—yn *lavish*—yn ei holl weithredoedd ; y mae ei dylanwad mor gryf fel ag i yru'r gwàn yn rhy bell yn fynych, a chymer *help moesoldeb* i'w chadw o fewn ei phriodol derfynau. Y mae dyn yn dueddol i fyned yn wr glwth, ac yn yfwr gwin, yn unig er mwyn y pleser a gaiff drwy foddhau ei reddf. Dyma lle mae pechod yn d'od i fewn ; ac i wrthweithio y gormodedd hwn y mae dyn wedi ei freintio â rheswm a chydwybod. Y moddion yw y reddf, yr amcan yw cynhaliaeth bywyd. A dyma'r *mistake* mawr a gyflawna dyn—camgymeryd y

MODDION AM YR AMCAN.

Y mae gan ddyn—neu, o'r hyn leiaf, bob dyn goleuedig—lygad rheswm i weled yr amcan o fwyta, sef cadw ei gorff yn gryf ac yn iach er mwyn parhau i *weithio* yn gorfforol ac yn feddyliol. Dyben lluniaeth yw cynal bywyd—fel ag yr awgryma'r gair "cynaliaeth."

Ac y mae'r un peth yn wir mewn cylchoedd uwch na'r ystafell giniaw. Y mae'r un peth

YN WIR YN Y CYLCH MEDDYLIOL.

Siaredir yn fynych am gasglu gwybodaeth er ei mwyn ei hun. Ond be' dda yw gwybodaeth oni ddengys ei hun yn mywyd y dyn? Arferai yr hen athronwyr Groegaidd siarad llawer am yr athrawiaeth o fynu gwybodaeth er ei mwyn ei hun. Ond ar ol dyddiau Bacon y mae gwybodaeth wedi cynyddu a gwneud ei ôl fwyaf ar y byd, a hyny am fod Bacon wedi rhoddi i wybodaeth ei lle priodol, sef moddion i gyrhaedd amcan neillduol—sef cysuron bywyd. Pa nifer o *intellectual gluttons* sydd i'w gweled y dyddiau hyn hyd yn nod, pobl wedi meddwi ar wybodaeth,

A'U PENAU WEDI ANGHOFIO EU TRAED?

Ac i'm tyb i y mae'r un peth yn hollol gywir mewn ystyr grefyddol, neu ysprydol, hefyd. Fe gyfaddefir yn gyffredin fod yna ryw reddf grefyddol—rhyw *religious instinct* mewn dyn. Rhyw "chwant bwyd" ysprydol, neu yn iaith y Testament Newydd, "newyn a syched am gyfiawnder." Mewn cylchoedd syml, gwledig, y mae'r newyn hwn yn cael ei ddiwallu—a dim rhagor, gan grefydd syml y Beibl. Y mae pobl dawel, ddi-wrtaith y bryniau a'r mynyddau, yn cymeryd eu lluniaeth

ysprydol yn syml a naturiol; yn debyg ag y gwna eu deadelloedd bori ar "eu mil o fynyddoedd"; yn cymeryd y borfa er eu cynhaliaeth, ac, heb yn wybod iddynt eu hunain,

Yn Byw.

Mor fynych yr anghofir mai amcan crefydd yw, nid rhoddi mwyniant, nid codi *sensation*, mwy nag amcan lluniaeth yw rhoddi pleser, yn unig, ond rhoddi bywyd. Y mae gormod o'r

Glythineb Crefyddol

yma yn Ngymru heddyw. Braidd na ddywedwn fod gormod o dyru y dyddiau hyn i "wleddoedd ysprydol" y gymanfa a'r sasiwn a'r cyrddau mawr. Y mae gwledd yn naturiol, ac yn burion peth yn ei lle ac yn ei phryd; ond amcan y bwyd ysprydol yw rhoddi *bywyd* a *nerth*. Y mae *palates* y bobl wedi dirywio i'r fath raddau fel na fedrant archwaethu crefydd bur, syml; y pregethwr *emotional* sydd yn "myn'd â hi" y dyddiau hyn; rhyw fath o winoedd distylliedig a meddwol a fyn y bobl, yn lle "didwyll laeth y gair." Y mae'r gymanfa yn rhy fynych yn cynyrchu rhywfath o

Feddwdod Ysbrydol

sydd yn cael ei ganlyn gan wendid ac iselder, a'i effaith yn union yr un fath ag eiddo gormodedd o ffrwyth y winwydden. Y mae llawer o bobl yn myned i'r capel ar y Sul er mwyn *enjoyment*, ac y mae hyny yn eithaf da, os y canlynir y mwynhad gan effeithiau iachusol a chryfhaol yn ystod yr wythnos. Ond y ffaith ydyw, mai ar *stimulants* ysprydol y diodir y torfeydd yn rhy fynych yn y dyddiau hyn, a'u heffeithiau yn darfod cyn yr hwyr, a bore dranoeth dihunant yn waeth eu cyflwr na'r bore cynt. Y mae'r 'ymdrech am fodolaeth' mor galed yn y pwlpud ag yw mewn swyddau lleygol yn y dyddiau hyn; a'r gwr sydd yn *caterò*—sydd yn parotoi pregeth—at chwaeth y dorf, "dyna'r dyn sy'n myn'd â hi." Ond y mae cyfrifoldeb mawr yn gorwedd ar rywrai yn rhywle—pwy? a pha le?

Yn ei lyfr nodedig ar "Lenyddiaeth ac Athrawiaeth" (*Literature and Dogma*) dywed

Matthew Arnold

mai swyddogaeth fawr y genedl Iuddewig oedd dysgu i'r byd am "Y gallu hwnw, nid ein hunain, sydd yn tueddu at gyfiawnder." Wrth y gair "cyfiawnder" yma golygir nid *justice* ond *righteousness*—hyny yw, *iawnder* bywyd, yn foesol ac ysprydol. Bywyd cyflawn, bywyd pur, buchedd dda. A thyna geisia Arnold ddangos yw, nad dysgu athrawiaeth yw swyddogaeth y Beibl, ond dysgu am y gallu hwnw sydd yn ein harwain i fyw bywyd o gyfiawnder. Yn ol ei eiriau ei hunan,

Iawn-ymddygiad yw Tri-Chwarter Bywyd.

Yn ein horiau gwaith llafurio am y bara a dderfydd ydym: yr ydym yn gweithio er mwyn byw. Ond mor aml yr ydym yn camgymeryd y moddion am yr amcan yma eto. Mae'r egwyddor i'w gweled wedi ei chario i'w eithafbwynt yn mywyd, neu yn hytrach, yn marwolaeth y cybydd, yr hwn sydd wedi aberthu ei fywyd er mwyn y "moddion." Gwyw'r cybydd sydd wedi llwyr anghofio mai amcan arian yw ei gynorthwyo i fyw, a hyny yn ystyr lawnaf y gair. Y mae yn gwneud yr un camgymeriad a'r gwr sydd yn anghofio mai dyben diod yw tori syched, neu gryfhau'r gwàn; a'r gwr hefyd sydd yn anghofio mai amcan crefydda yw ei gynorthwyo i arwain bywyd o gyfiawnder. Y mae llawer o honom yn gwybod am ambell i hen amaethwr anllythyrenog yn Sir Aberteifi sydd yn gweithio, ef a'i blant, hwyr a bore, fel slâf. Mewn gwirionedd, er mwyn y pleser o grynhoi arian y mae yn gweithio, a beth yw'r pleser

hwnw pan y dadansoddir ef? Rhyw "fàn gwyn fàn draw" yn ei fywyd pan y byd y ffarm wedi ei chlirio, pan y bydd arian yn y banc, pan y bydd pawb yn tynu eu hetiau iddo fel gwr o berchen da lawer. Ie'r

MAN GWYN FAN DRAW

sydd yn denu'r casglwr cyfoeth. A dyma wir safle llawer o grefyddwyr, yn enwedig yr *emotional type*. Y maent yn crefydda Sul ar ol Sul, yn mynychu cyfarfodydd pregethu yn ddifeth—rhagorol o beth, ond ai er mwyn byw? Na, y maent yn anghofio'r amcan. Gweled "màn gwyn fàn draw" y maent lawer o honynt; nid ydynt yn prisio llawer am y bywyd hwn, ond am gael y gwynfyd, y nefoedd yn y diwedd y maent. "Twt," meddant, "i'r un man yr ydym am fyn'd i gyd." Nid ydym byth yn clywed—"Yr un amcan sydd gan ein holl enwadau, cynyrchu bywyd pur, moesol,—ysprydol, os myner." Nid crefydda er mwyn iawn ymddygiad mewn bywyd y maent. Collant olwg ar y dyben drwy "ddifoli" ar bleserau'r "moddion" (yn ei holl ystyron). Y canlyniad yw fod yna ddiffyg sylweddoldeb, diffyg

"REALITY"

yn nghrefyddau iawn-ffyddol yr oes. Ac y mae'r diffyg hwn yn ysgaru llawer o ddeiliaid mwyaf meddylgar iawnffyddiaeth oddiwrthi.

O fy mlaen y mae cyfrol o bregethau a draddodwyd gan un o bregethwyr mwyaf enwog Cymru yn ei ddydd—y mwyaf enwog, yn wir, ar lawer ystyr. Y mae'r gyfrol ar agored mewn pregeth ar

ANGYLION,

a chymer yr awdwr amryw dudalenau i wneud *vague speculations* parthed nifer, oedran a graddau y llu adeiniog a nefolaidd hwn, a'r manteision y maent wedi gael rhagor dynoliaeth, a'u rhagoroliaeth yn mhob ystyr ar drigolion y byd gwael isloerawl hwn. A yn ei flaen i ddesgrifio eu cartref, y nefoedd, gyda ffyddiawgrwydd un yn gyfarwydd a phob congl a chopa o Fryniau Caersalem. Desgrifia fynediad y saint i'r gwynfyd, a dywed y bydd blynyddau cyntaf eu harosiad yno yn cael eu llanw i fyny gydag *introductions* i bobl fawrion y lle—Abraham ac Esaiah a Phaul—mewn gwirionedd, rhyw *reception on a grand scale* fydd, yn ol y gwr athrylithgar hwn. Diamheu fod y bregeth hon wedi ei thraddodi niferoedd o weithiau i wyr a gwragedd a phlant nad oeddent yn alluog i farnu y pethau hyn drostynt eu hunain. Pobl syml a gymerent yr oll i fewn ar awdurdod y pregethwr enwog. Diamheu hefyd eu bod yn cael mwynhad dirfawr wrth ei wrando—ond b'le mae'r bywyd—y *reality*—yn hyn oll? O ba werth ydyw *speculations* ar sefyllfa bodau amheus eu bodolaeth pan y mae cig a gwaed yn crynu'n sylweddol o'n cylch? Y pwnc mawr ydyw, nid sut yr ymddygwn pan yr awn i gymdeithas angylion, ond sut i ymddwyn yn nghymdeithas y bodau sydd yn ein hamgylchu yr awrhon?

Dywed

EMERSON

mewn anerchiad a draddododd un tro mewn cyfarfod o efrydwyr am y weinidogaeth eiriau a geisiaf gyfieithu fel hyn: "Y mae y swydd [o bregethwr] y flaenaf yn y byd. . . Ond nid yw y swydd yn cael ei chyflawni yn briodol. . . Wrth bregethu golygir dangos y modd i gymhwyso'r deimladaeth foesol at ddyledswyddau bywyd. . . Clywais unwaith bregethwr fu'n agos i'n temtio i ddweyd na thywyllwn ddrws capel ond hyny. Y mae dynion yn myned, meddwn, lle'r arferant fyn'd, onide ni ddaethai neb i'r deml yr hwyr hwnw. Yr oedd cafod eira yn disgyn o'n cylch. Yr oedd y gafod yn sylweddol; nid oedd y pregethwr ond trychiolaeth, a theimlai'r llygad

y gwahaniaeth prudd wrth sylwi arno ef, ac yna ar blu pur-wynion yr eira oddiallan. Yr oedd wedi byw yn ofer. Ni chawsom ein tueddu i feddwl ei fod wedi chwerthin na wylo, wedi priodi na charu, wedi ei ganmol na'i dwyllo, na'i flino mewn modd yn y byd. Os bu iddo erioed fyw a gweithredu, nid oeddem ddim yn gallach o hyny. Nid oedd erioed wedi deall *secret* fawr ei alwedigaeth, sef troi bywyd yn wirionedd. . . . Adnabyddir y gwir bregethwr wrth hyn, ei fod yn cyfranu i'w bobl ei fywyd—bywyd wedi ei buro drwy dân ei feddwl." Beth bynag ellir ddweyd am ddiffyg ysprydolrwydd y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg a dechreu'r ugeinfed gellir dweyd hyn, y mae llawer o

Broffwydi'r Gwirionedd

wedi byw a marw yn ystod y can' mlynedd diweddaf.

Cydnabyddir yn gyffredin mai amcan archwiliadau ac arbrofion gwyddoniaeth yw lleshau dynolryw a gwneud bywyd yn well. A phwy a wâd fod darganfyddiadau mawrion y ganrif ddiweddaf wedi cael dylanwad mawr hefyd er llesiant moesol dynolryw? Faint o'u gwarthruddo gafodd

Darwin ac Huxley

yn ac ar ol eu dydd? A hyny am ddim ond eu bod am sefyll i fyny dros *reality* mewn bywyd. Pwy sydd wedi dynoethi celwydd a *sham* fel Thomas Carlyle, y gwr wnaeth ei oreu i dynu ymaith wisgoedd ffug a rhagrith a defodaeth er dangos y gwirionedd dwyfol, noeth i'r byd? Ac y mae'n ymddangos fel be bai merthyr arall dros *reality* wedi marw o fewn y dyddiau diweddaf hyn, sef yr ysgrifenydd Ffrengig enwog,

Zola.

Beth bynag ellir ddweyd yn erbyn llenyddiaeth Zola—ac y mae llawer wedi ei ddweyd gan y Saeson yn erbyn ei amhurdeb, fel y tybiant—y mae wedi rhoddi i'r byd ei fywyd. Yn ei lyfrau y mae yn rhy aml yn darlunio bywyd yn ei hagrwch mwyaf adgas. Yn "Y Cwymp" (*The Downfall*) y mae y darluniau a dyn o feusydd y rhyfel rhwng Ffrainc a Phrwsia yn anioddefol ar brydiau yn eu *realism*. Mae'n wir nad oedd yn grediniwr yn y 'goruwchnaturiol,' nac yn grefyddol yn ystyr gulaf y gair. Bywyd llawn o waith—bywyd er budd dynoliaeth, dyna ei ddelfryd. "Mwyniant bywyd" (*la joie de vivre*) dyna ei hoff destyn. Bywyd llawn o flodau, o wyrddlesni anian, o brydferthwch ac iechyd di-dor, ac eto nid bywyd segur oedd ei *ideal*. Nid athroniaeth "Bwytawn a byddwn lawen, canys yforu marw yr ydym" oedd yr eiddo ef, neu fel y ceir hi yn y bardd Persiaidd Omar—

"Llyfr caniadau dan werdd-goeden gref,
Bara, a gwin heb drai, a melus lef
F'anwylyd hithau yn y diffaeth-dir—
Diffaethwch fuasai, O! yn ddigon nef."

Na, bara o wenith y meusydd, gwin o'r gwinllanoedd, dwfr o ffynonau grisial y mynyddoedd, awelon brodir Ffrainc; brawdgarwch, cydraddoldeb, a gwaith yn cadw'r oll mewn purdeb, ac yn llanw bywyd a mwyniant—dyna *ideal* Zola. Dichon fod yr ysgrifenydd enwog yn dioddef dan y "newyn ysprydol" cyffredin sydd yn teyrnasu drwy Ffrainc heddyw, ond rhaid addef er hyny fod ganddo nid yn unig ben athrylithgar ond hefyd galon fawr eang. Safodd i fyny fel cawr dros y gormesedig a'r erlidiedig Dreyfus; dioddefodd wawd ac alltudiaeth er ei fwyn. Er na fu farw dros ei gyd-ddyn, hawdd y gellir cymhwyso geriau'r faled American-aidd ato—

"*For Christ ain't going to be too hard*
On a man who lived for men."

Y Fran.

Y DIWEDDAR THOMAS HUGH RICE HUGHES, NEUADDFAWR, LLANBEDR.

Ganed ef yn Llwynygroes, Llanwnen, y 3ydd dydd o Hydref, 1858; bu farw y nawfed-dydd-ar-hugain o Fedi, 1902, a chladdwyd ef y 3ydd dydd o Hydref, 1902. Mab ydoedd i Mr. Thomas John Hughes, Castelldu, ac wyr i Mr. Thomas Hughes, Neuaddfawr. Ei fam ydoedd merch Mr. David Rice Thomas, Troedrhiw, Llanwenog; modryb iddo oedd y diweddar Mrs. Jones, Llwynygroes, a modryb iddo yw Mrs. Jones, Werndryw Lodge, Llanbedr.

Bore Llun, y nawfed-dydd-ar-hugain o Fedi, pan yn cychwyn i fyned i farchnad fisol Llanbedr, nid oedd Mr. Hughes yn golygu llai na dychwelyd ryw amser yn y prydnawn fel arferol, ond yn y gwrthwyneb y bu. Bu farw yn dra disyfyd oddeutu haner awr wedi deuddeg yn y "Royal Oak," a dygwyd ei gorph marw adref rhyw amser yn yr hwyr.

"Ni wyr un marwol berchen chwyth,
Wrth ado'i nyth y bore,
Na fydd e'n d'od yn gelain o'r
Brydnawn ar elor adre'."

Rhyw dair neu bedair blynedd yn ol priododdweddw y diweddar Mr. Dennis, Mynachdy, Aberaeron, ond ni aned iddynt yr un plentyn. Yr oedd Mr. Hughes, fel ei dad a'i dadcu, yn boblogaidd iawn yn y wlad o amgylch, ac y mae galar a hiraeth cyffredinol ar ei ol. Er yn gyfoethog fel tirfeddianydd, ni wnai ar gyfrif hyny ddiystyru ei is-raddolion, ond ymddygai tuag atynt yn hytrach fel cyd-raddolion, a pharchai bawb a ystyriai yn teilyngu parch. Er yn ymgyfeillachu â phersonau uchelradd pan fyddai amgylchiadau yn gofyn hyny, eto, fel ei hynafiaid, yn nghwmni'r bobl gyffredin, megis ei ddeiliaid ac ereill, yr oedd yn cael y pleser mwyaf; efelychai hwynt hefyd fel meistr tir trwy fod yn arbenigol dirion tuag at ei ddeiliaid; ni flinai hwynt â beichiau rhy drymion i'w dwyn, a gwrandawai eu cwynion pan fyddai rhyw galedi. Dyna oedd y siarad a glywid rhwng pob dau braidd yn ei angladd. Gwrthrychau ei gydymdeimlad a'i garedigrwydd neillduol oedd yr hen a'r methiantus, a gwnai ei oreu drostynt—i'r cyfryw bydd marwolaeth Mr. Hughes yn golled fawr, ond gan iddo adael ei holl eiddo yn dir ac yn arian i'w briod, gobeithio y bydd Mrs. Hughes yn deilwng o'r ymddiriedaeth, ac yn ymdrechu, o barch i goffadwriaeth ei phriod ymadawedig, i lenwi ei le hyd eithaf ei gallu, ac hyd yn nod i wneuthur i fyny bob diffyg, os oes y cyfryw, yn ei ewyllys olaf ef.

Fel aelod cymdeithas, bu Mr. Hughes fyw i fyny i'r cynghor a roddwyd iddo gan Mr. Pryse, Bwlchbychan, yn y Neuadd y dydd y daeth i'w oed, sef "*Now, Tom, since you have attained your majority, I hope you will endeavour to be a useful member of society.*" Yr oedd Mr. Hughes yn *Deputy-Lieutenant* dros Sir Aberteifi, aelod o Gynghor Trefol Llanbedr, Maer Llanbedr (1891–2), Ynad Heddwch dros y Sir, Cadeirydd Llys yr Ynadon yn Llanbedr, aelod o Fwrdd y Gwarcheidwaid yn Undeb Llanbedr, a Chadeirydd Bwrdd Ysgol Llanwenog. Yr oedd yn teimlo dyddordeb mawr mewn amaethyddiaeth, a mynychai gyfarfodydd amaethyddol ac arddangosfeydd—nid heb eu cynorthwyo mewn ystyr arianol.

Mewn gwleidyddiaeth, Rhyddfrydwr oedd fel ei dylwyth o'i flaen, ac yn fawr ei ddylanwad pan fyddai cydymgais etholiadol yn cymeryd lle.

Er mai Undodiaid oedd ei hynafiaid yn y Neuaddfawr, i'r Eglwys yr ai ef i addoli, ond Undodiaid oedd-

ent rai o'i gyfeillion mwyaf mynwesol, ac aml y gwelid ef yn bresenol yn ei cyfarfodydd. Ar ei dir ef y saif Capel Brondeifi. Aml hefyd y gwelid ei enw fel tanysgrifiwr i'w gwahanol *building funds*.

Claddwyd Mr. Hughes yn *Private Cemetery* y teulu gerllaw Hen-dy y Neuadd, a hyny prydnawn y dydd y byddai, pe yn fyw, yn cael pen ei flwydd sef y 3ydd o'r mis diweddaf (Hydref). Yr oedd ei gynhebrwng yn afrifed o luosog, yn cael ei wneuthur i fyny o bersonau pell ac agos, boneddig a gwreng. Pan oedd y corph yn cael ei gludo allan o'r tŷ i'w osod ar yr elor, darllenwyd rhan o wasanaeth y claddedigaeth gan y Parch. T. Lewis, Periglor Silian a Llanwnen, a'r Parch. J. D. Lewis, Ficer Pencarreg. Yna gan sefyll ar un o risiau yr *entrance* i'r palas, traddododd y Parch. John Davies, Alltyplacca, un o gyfeillion mynwesol yr ymadawedig, anerchiad gwir alluog ac effeithiol, a rhoddodd benill allan i'w ganu, sef "O fryniau Caersalem," &c. Yna aed tua'r gladdfa gerllaw ac wedi gosod y corph yn y bedd, darllenwyd gweddill gwasanaeth y claddedigaeth gan y ddau beriglor a enwyd uchod. Dywedodd Thomas Thomas, Green Park, ychydig eiriau, ac yna ymadawyd o'r hen fangre gysegredig gan adael un yn chwaneg ar ol.

HEN GYDNABOD (sef T.T.)

ADOLYGIAD.

YR HIBBERT JOURNAL.*

Gyda'r boddhad a'r pleser mwyaf y dymunem groesawi y cyhoeddiad tri-misol hwn. Y mae yn ddiambheu, ac fe erys, yn un o'r cyhoeddiadau pwysicaf ar ddechreu y ganrif yn ei gylch ei hun. Dau weinidog Undodaidd ydynt y golygwyr, ond nid yw gyfyngedig i un enwad, oherwydd ar y bwrdd golygyddol gwelwn enwau Deon Ely, Deon Durham, Canon Cheyne, Dr. Watson, a'r Parch. James Moffatt, Claude Montefiore, yr Iuddew dysgedig, Sir Oliver Lodge, *electrician* blaenaf y ganrif, Sir Edward Russell, yr Eglwyswr rhyddfrydig, &c. Dywed y golygwyr yn y rhagymadrodd mai cadw drws agored i syniadau duwinyddol ac athronyddol sydd a tyfiant ynddynt yw prif amcan y cyhoeddiad. Nid eu hamcan yw dal i fynu sect, oherwydd teimlant hwy, ac yn wir yn hyn unir â hwy gan fwyafrif prif feddylwyr y byd, fod yn gorwedd o'r golwg megis—o dan syniadau mân duwinyddol yr eglwysi, wirioneddau duwinyddol a chrefyddol sydd yn anrhaethol bwysicach i gynydd a dyrchafiad dynoliaeth na'r credoau a'r *dogmas* duwinyddol sydd erbyn heddyw yn llygad goleuni dydd ar gwbl ddiflanu. Pontio dau gagendor

* "THE HIBBERT JOURNAL: a Quarterly Review of Religion, Theology, and Philosophy." Edited by L. P. Jacks, M.A., & G. Dawes Hicks, M.A., Ph.D. Messrs. Williams and Norgate. 2s. 6d. nett.

yw amcan y cyhoeddiad pwysig hwn. (1) Gosod pont ag y medr prif ddynion y gwahanol enwadau groesi o'u plwyfi duwinyddol i ynys gwirionedd, lle y gallant oll fyw yn gytun ac ar y telerau mwyaf hapus. Cânt gyfleusdra oll yn yr ynys hon i archwilio ac i gario yn ol adref ffrwythau y wlad sydd yn llifeirio o laeth a mêl. Yr ail bont fydd yn gynorthwy i gario i'r ynys hon y dosparth lluosog diwylliedig hwnw sydd wedi ei yru o'r eglwysi, drwy ymlyniad y pwlpud wrth syniadau hollol groes i ddatguddiad Duw mewn natur ac yn meddwl dyn.

Nid oes gofod genym i fyned i mewn i gynhwysiad y prif erthyglau, nac i gymhwysderau yr ysgrifenwyr. Ond i bawb sydd yn gwybod am syniadau duwinyddol ac athronyddol y dydd, saif enwau yr awdwyr hyn fel awdurdodau yn eu gwahanol ganghenau. Adnabyddir y Proffeswr Percy Gardner drwy yr holl fyd fel un o'r awdurdodau uchelaf ar Hynafiaeth Groeg a chyfnod hanes boreuol yr eglwys. Ac fel y dywed y Cymro galluog a hereticaidd hwnw, y Proffeswr Henry Jones, mae Dr. Royce, o Brif Athrofa Harvard, newydd gyhoeddi y ddwy gyfrol bwysicaf ar berthynas athroniaeth a chrefydd a ymddangosodd mewn unrhyw iaith er ys blynyddoedd. Nid rhaid hysbysu unrhyw berson yn Mhrydain am werth ac athrylith Dr. Stopford Brooke. Cydnabyddir ef bellach fel un o'r ychydig broffwydi sydd fyw heddyw i gyfeirio traed dynoliaeth at ystad fwy gwir a da a phrydferth. Mewn perthynas i Dr. Drummond ni fydd i ni ddweyd dim ond rhoddi barn Canon Sanday am dano :— "*Talis cum sis utinam noster esses*" ("Gan dy fod y cyfryw, O, na fuaset yn un o honom ni.") O waelod ein calon dywedwn, "Boddlon ydym," os bydd Dr. Drummond yn foddion i arwain lluaws o'n brodyr iawnffyddol i mewn i deml gwirionedd. Ysgrifena tri o wyr galluog ar y berthynas sydd rhwng rhagluniaeth a'r cynhyrfiadau daearegol gymerodd le yn ystod y misoedd diweddaf yn rhai o ynysoedd y gorllewin. Sut mae'n bosibl cysoni bodolaeth, hollalluawgrwydd a chariad Duw a'r ffaith dorcalonus fod canoedd o wyr gwragedd a phlant diniwed yn cael eu hyrddio i fyd arall heb foment o rybudd gan gynhyrfiadau natur. Cynygia y Proffeswr Howison, o'r America, y Parch. R. A. Armstrong yn ein plith ein hunain, a'r Parch. R. F. Horton o blith yr Anibynwyr atebion i'r cwestiwn hwn.

Mae adran yr adolygiadau ar lyfrau yn anrhaethol bwysig, oherwydd mae'nt oll yn rhywbeth yn rhagor nag adolygiadau; yma rhoddir cnewyllyn ystyr ac amcan prif lyfrau athronyddol a duwinyddol y dydd. Dangosir y cyfeiriad mae afon cynydd yn ei chymeryd yn y presenol a theflir goleuni i raddau helaeth ar gwrs rhediad yr afon yn y dyfodol. Ni osodir yn y cyhoeddiad hwn gyfeillion i adolygu llyfrau gan gyfeillion. Er engraifft, adolyga Dr. James Moffatt, un o brif ysgolheigion Eglwys Rydd Ysgotland, a'r Proffeswr A. S. Peake, un o brif ddysgedigion y Primitive Methodists, y drydedd gyfrol o'r *Encyclopædia Biblica*. Talant y deyrnged uwchaf i werth arosol y Geiriadur, ac nid yw y ffaith eu bod yn anghytuno mewn mân bethau yn cau eu llygaid rhag gweled ei deilyngdod fel y digwyddodd i un o'n Proffeswyr ni, sef y Proffeswr Addis, o Goleg Manchester, Rhydychen. Yn yr *Inquirer* ychydig fisoedd yn ol wrth adolygu yr un gyfrol, ymddengys fod Canon Cheyne yn ormod o heretic iddo ef ar amryw bwyntiau, a rhoddodd hyn gyfleusdra i Mr. Addis i ddiraddio y llyfr a'i ddamnio. Medr un dyn fod yn fwy rhydd yn y carchar na dyn arall sydd yn rhydd ac heb lawgyffion am ei arddyrnau. Teimla *Yr Ymofynydd* ei fod yn gwerthfawrogi rhyddid pa le bynag y gwêl ef, ac o dan ba enwau bynag yr ymddangosa. Ie, er gwerth enwau, mae yna rywbeth sydd o fwy o werth, sef y rhyddid sydd yn gorwedd o dan ystyron

enwau, yn ogystal a'r enwau eu hunain. Cynghorem ein gweinidogion, ac yn arbenig ein gweinidogion ieuainc i fod ar eu gwyliadwriaeth rhag gadael i'r cyfleusdra hwn fyned o'u cyrhaedd i ymgydnabyddu a phrif ystyr a thueddiadau athroniaeth a duwinyddiaeth y dydd, y rhai daflant oleuni anhebgorol anghenrheidiol ar anhawsderau dyryslyd bywyd yn nechreu yr ugeinfed ganrif. Hon ydyw neges yr *Hibbert Journal*, ac yn y rhifyn cyntaf mae wedi cario ei neges allan mewn modd ardderchog.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

Cynaliwyd Cyfarfodydd Hydrefol yr uchod yn Nghapel-y-bryn, ar ddyddiau Mawrth a Mercher, y 30ain o Fedi a'r 1af o Hydref. Dechreuwyd y gwasanaeth nos Fercher, am 7 o'r gloch, gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwyn; a phregethwyd gan y Parch. D. Evans, Cwmbach, a'r Parch. W. James, B.A., Y.H., Llandyssul. Boreu dydd Mercher am 9, o dan arweiniad y Llywydd, y Parch. T. Lloyd Jones, Lerpwl, cynhaliwyd Pwyllgor y Gymdeithas i ymdrin a materion perthynol i'w gwaith. Am 10 dechreuwyd y gwasanaeth cyhoeddus gan y Parch. D. Evans, Cribyn, a phregethwyd gan y Parch. D. Rees, Rhondda, y pregethwr apwyntiedig. Yn y prydnawn, cyfarfu pwyllgor o'r gweinidogion ac athrawon yr Ysgol Sul. Y Cadeirydd, y Parch. D. Evans, Cwmbach, yn llywyddu. Y peth pwysicaf o dan ystyriaeth oedd, y dymunoldeb o gael cyhoeddad misol i ddeiliaid ieuainc yr ysgolion, er ceisio eu dwyn i fwy o gydymdeimlad a'u gilydd ac i ddefnyddio ynddynt fwy o ddyddordeb yn llenyddiaeth yr enwad. Awgrymwyd amryw o bethau; yn y diwedd penderfynwyd i fabwysiadu *Young Days*, ac i ychwanegu pedair tudalen yn Gymraeg at bob copi heb ragor o bris. Cychwynwyd trysorfa ar gyfer y draul ar unwaith, ac addawodd y Parch. R. C. Jones bunt tuag ati, a Mr. Saunders Davies, Rhydygwin, ddwy bunt. Am 2 o'r gloch, dechreuwyd y gwasanaeth gan Mr. Simon Jones, B.A., a phregethwyd gan y Parch. J. Hathren Davies, Y.H., a'r Parch. R. J. Jones, M.A. Am 6 yn yr hwyr dechreuwyd yr addoliad gan y Parch. D. Rees, a phregethwyd gan y Parch. J. P. Kane, a'r Parch. T. J. Jenkins. Heblaw y gweinidogion a enwyd uchod, yr oedd yn bresenol, y Parchn. T. Arthur Thomas, Lewis Williams, ac E. E. Jenkins, yn nghyd a'r myfyrwyr canlynol: J. Park Davies, B.A., W. S. Jones, B.A., J. Islan Jones, B.A., a David Davies. Bu'r cyfarfodydd o'r dechreu i'r diwedd yn hynod lwyddianus. Yr oedd y tywydd yn ffafriol, y cynulleidfaoedd yn lluosog iawn, y canu yn rhagorol, a'r pregethwyr yn eu hwyliau goreu. Yr oedd eglwys Capel-y-bryn, yn garedig iawn, wedi gwneud pob darpariadau angenrheidiol i groesawu pawb a ddaethant yn nghyd.

PRIODASAU.

AWST y 12fed, yn Swyddfa'r Cofrestrydd, yn Mhontypridd, Mr. Edward Edwards, 24, Herbert Street, Treorchy a Miss Maggie Davies, Bwlchyberllan, Cwrtnewydd, Ceredigion :—

Bendith y nefoedd, i'r uniad hyfrydol,
A newydd dyfiant o rinweddau dwyfol.

MEDI y 25ain, yn Nghapel *West Grove*, Caerdydd, gan y Parch. D. Evans, Cwmbach a'r Cofrestrydd (y Parch. J. Tyssul Davis, B.A.), Mr. John James, Cwmneol, prif swyddog ffermyddol y *Powell Dyffryn Co.*, a Thrysorydd Eglwys Undodaidd, Cwmbach a Miss Annie Morgan, merch Mr. John Morgan, Abernantygroes, Cwmbach, ysgrifenydd parchus yr un eglwys. Dymunwm o galon fendith Duw ar yr uniad hapus.

MARWOFION.

AWST 15fed, yn 24 oed, T. Davies, Troedyrhiw, Crugyreryr. Gwaith digon anymunol a chaled ydyw colli cyfeillion pan yn mlodau eu dyddiau. Bywyd defnyddiol, tawel, gonest, oedd eiddo Tom, a phe b'ai ei ddyddiau ar y ddaear yn llawer, mae genym bob rheswm dros gredu y byddai ei gartref, eglwys y Bwlch, a'r holl gymydogaeth yn burach a chyfoethocach eu moesau trwy ei ddylanwad a'i ddidwylledd. Ar y 19eg o Awst, rhoddwyd ei "lestr pridd" i orwedd yn nghladdfa y Bwlch. Gwasanaethwyd yn y tŷ a phregethwyd yn y Capel gan Mr. Jenkins, Bwlch, a gorphenwyd y gwasanaeth ar lan y bedd gan Mr. Thomas, Pantdefaid.

MEDI 13eg, yn 4 mis oed, Johnny Jones, Frondes. Mawrth canlynol, claddwyd ei weddillion yn mynwent Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd gan Mr. Jenkins. Cydymdeimlwn yn fawr a rhieni y bychan.

MEDI 21ain, yn 10 wythnos oed, David Davies, Rhosgochfach, Llanarth. Y Mawrth canlynol cludwyd ei lestr pridd i fynwent Bwlchyfadfa, a gwasanaethwyd yn y capel ac ar lan y bedd gan Mr. Jenkins. Ymgysurwch rieni.

HYDREF 17eg, yn 41 oed, Rachel Thomas, yr hon am bedair blynedd ar bymtheg fu yn ngwasanaeth Mrs. Thomas, Clettwr villa, Pontshan. Ni fu yn glaf ond am ychydig ddiwrnodau, ac y mae ei lle arbenig hi yn wag iawn. Yr oedd drwy ei gofal a'i diwydrwydd wedi enill parch neilldduol ei meistres, a thrwy ei ffyddlondeb gwastadol yn Mhantdefaid wedi enill cylch helaeth o gyfeillesau a chyfeillion sydd yn teimlo yn hiraethlon am ei cholli mor ddisymwth a chynar. Gadawodd un ferch ieuanc, brodyr a chwiorydd ac amryw berthynasau ar ei hol mewn galar. Y dydd Mawrth canlynol claddwyd ei gweddillion marwol yn Mhantdefaid, y gweinidog yn gwasanaethu, a chafwyd gair gan y cyn-weinidog.

HYDREF 22ain, yn 36 oed, Enoch Evans, Penbryn, Gwarllwynoedos, Llandyssul. Ni fu yr ymadawedig yn glaf ond am rhyw wythnos o amser, ac ni ddaeth i feddwl neb y buasasi yn gorphen ei yrfa mor ddisymwth. Yn ei farwolaeth gadawodd weddw a chwech o blant ieuainc i alaru eu colled drom ar ei ol. Tad yr amddifaid a Barnwr y weddw fyddo yn gymhorth iddynt. Y dydd Sadwrn canlynol gosodwyd yr hyn oedd farwol o hono yn nghladdfa Pantdefaid, y gweinidog yn gwasanaethu.

HANES YR EGLWYSI.

BRONDEIFI. — Cynhaliwyd Cyfarfod diolchgarwch am y cynauaf yma y 13eg o Hydref, pryd y pregethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, Llandyssul. Cafwyd cyfarfod hwylus a phawb mewn hwyl diolch.

HIGHLAND PLACE, ABERDAR.—Da genym ddeall fod y gweinidog ieuanc, Mr. Short, yn taflu ei hunan gyda brwdfrydedd i'w waith, ac fod arwyddion llwyddiant yn canlyn ei ymdrechion. Y mae wedi cychwyn *Guild* yn nghyd a dosbarth y bobl ieuanc, y rhai sydd yn darllen llyfr Mr. Armstrong : "*Gwybodaeth Dyn am Dduw.*"

PANTDEFAID A LLANDYSSUL.—Cynhaliwyd Cyfarfod diolchgarwch am y cynauaf yn yr eglwysi hyn, dyddiau Sul, Llun a Mawrth, Hydref 19, 20 a 21. Y pregethwyr eleni oeddynt y Parchn. W. Tudor Jones, Abertawe a David Evans, Cwmbach, y rhai draddodasant bregethau hyawdl i gynulleidfaoedd llawnion yn yr holl gyfarfodydd. Addurnasai boneddigesau y Graig eu capel yn dlws a phrydferth.

CWMBACH. — Cynhaliwyd Cyfarfodydd diolchgarwch am y cynauaf, yn y lle uchod, Sul a nos Lun, Hyd. 5ed a 6ed, pan y gwasanaethwyd gan y gweinidogion canlynol, Parchn. W. James, B.A., Y.H., Llandyssul ; H. Fisher Short, Highland Place ; J. Hathren Davies, Y.H., Cefn ; a D. Evans, gweinidog y lle. Cafwyd oedfaon bendithiol, pregethau grymus, a gwrandawiad astud. Gobeithiwn y bydd i'r hâd da a hauwyd gael dyfnder daear, fel y gellir edrych yn mlaen i'r dyfodol agos am gynhauaf toreithiog.

BWLCHYFADFA.—Nos Fercher, y 15fed o Hydref, cynhaliwyd Cyfarfodydd diolchgarwch am y cynauaf, yn y lle uchod, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, gweinidog y lle, a D. Evans, Cwmbach, Aberdar. Daeth tyrfa luosog yn nghyd, a theimlad pawb yn ddieithriad oedd eu bod wedi cael gwledd ardderchog i'r meddwl. Deallwn i gyfarfod cyffelyb gael ei gynal yn Llwynrhydowen gan yr un personau.

ADRAN YR YSGOL SUL.——Yn nghyfarfod y Pwyllgor gynhaliwyd yn Cwrtnewydd pasiwyd yn unfrydol i fabwysiadu yr *Young Days* gydag ychwanegiad o bedair tudalen yn Gymraeg at wasanaeth ein Ysgolion Sabbothol. Bwriadwn ddanfon apêl, yn ystod y diwrnodau nesaf, at yr holl Ysgolion, ac hyderwn gael cydweithrediad brwdfrydig er gwneud y misolyn yn llwyddiant. Mae'r plant yn hawlio ein sylw, a dylem ar bob cyfrif wneud ein goreu drostynt. Cynhelir arholiad blynyddol yr Ysgol Sul yn Ebrill fel arfer, a gobeithio fod yr holl ysgolion yn gwneud parotoadau ar gyfer y cyfryw. Bydded i bawb gofio fod yma ddigon o'r *Gwersi* a'r *Gofyniadau* fel nad oes eisieu i neb fod heb gopi. Carwn gael archebion am yr uchod oddi wrth yr Ysgolion nad ydynt wedi gwneud eisoes heb oedi fel y gallont ddechreu gyda'r gwaith o barotoi gogyfer a'r arholiad ar unwaith. Os oes gan rhyw frawd neu chwaer awgrymiadau i'w cynyg er gwneud yr arholiad a'r misolyn yn llwyddiant byddwn yn dra diolchgar am danynt. —T. J. JENKINS, Ysg.

PANTDEFAID.—Mae pwyllgor Adeiladu Pantdefaid o'r diwedd wedi cyhoeddi mantol-len o'r holl gyfrifon yr awd iddynt drwy adeiladu y Capel a'r Neuadd. Yr oedd yna rai mân bethau heb eu gorphen, yr hyn sydd yn cyfrif am nad oedd wedi ei chyhoeddi yn gynt. Dengys y fantollen sefyllfa ddymunol iawn, y ddyled fawr wedi ei chlirio ac ychydig geiniogau dros ben. Fel hyn y saif pethau :—Derbyniwyd mewn tanysgrifiadau, &c., £1056 6s. 11c. ; Gwariwyd £1054 8s. 7c. ; gweddill mewn

llaw, £1 18s. 4c. Dymuna'r pwyllgor adeiladu a'r gynulleidfa gyflwyno eu diolchgarwch gwresocaf i bawb o'r tanysgrifwyr am eu cydymdeimlad a'u caredigrwydd, ac i eraill fu yn cynorthwyo mewn amryw ffyrdd.

Trysorfa Lledaeniad "Yr Ymofynydd." — Dymunwn gydnabod gyda diolchgarwch addewid am un gini at yr amcan uchod, gan Rees Llewelyn, Ysw., Bwllfa, Aberdar. Cofus gan rai o'n darllenwyr i Edmund Howell, Ysw., gychwyn drwy gyfranu gini at y cynllun rhagorol hwn ; canlyn wyd ef llynedd gan D. J. Jones, Ysw., Ymgymerodd y gwr parchus uchod at y gwaith eleni. Pwy gawn ni yn Aberdar y flwyddyn nesaf i'w gario yn mlaen? Paham na fuasai esiampl y boneddigion hyn yn "getching" mewn trefi a chymydogaethau eraill? Dymunwn yn dda ar i'r achos lwyddo ond ni lwydd yr un achos heb aberthu. Cofiwn y gwirionedd hwn, "*God helps those who help themselves.*"

Yr Eisteddfod Genhedlaethol.—Y mae y *Goleuad* mewn rhifyn diweddar yn hawlio fod y Bardd Cadeiriol yn perthyn i'r Methodistiaid Calfinaidd. Ond yn y *Christian Life* am Medi yr 20fed dywed y Golygydd, fod Mr. T. Gwynn Jones, y bardd buddugol yn adnabyddus am ei olygiadau hereticaidd ar bynciau crefyddol tra yn myfyrio yn y Coleg gyferbyn a'r weinidogaeth Fethodistaidd, yr hon nid aeth iddi. Dadblygodd Mr. Jones mor gyflym fel pan adawodd y Coleg yr oedd yn Undodwr proffesedig. Dygwyd hyn oddiamgylch drwy fyfyrio gweithiau Dr. Channing, ac eraill.

America.—Yn ystod y flwyddyn ddiweddaf ychwanegwyd deuddeg o eglwysi newyddion, un ar hugain o orsafoedd pregethu, a saith ar hugain o weinidogion tuag at y Gymdeithas Undodaidd yn America. Y mae yn syn ac yn galonogol i sylwi fod pymtheg o'r gweinidogion hyn wedi eu derbyn oddiwrth enwadau eraill.

Teitlau Coleg Gale.——Mae rhyw ysfa ryfedd ar bregethwyr Cymru am gael cynffonau Americanaidd. Mae y nodyn canlynol gymerwyd o'r *Drych*, papyr Cymry America, yn dangos sut mae y teitlau gwag hyn yn cael eu prynu. "Syn oedd genyf weled yn y *Drych* fod y Parch. D. O——, T——, wedi derbyn D.D. o Goleg Gale. Pa bryd, ac o dan ba freinlen, tybed? Nid yw y sefydliad hwn mewn bodolaeth mwyach, ac mae yr adeilad wedi ei werthu i'r Norwegiaid Lutheraidd, ond gall fod *syndicate* y teitlau yn dwyn yn mlaen eu trafnidiaeth yr un fath. Gofynais i lywydd coleg unwaith, paham na fuaswn inau yn cael teitl ganddynt? "Wel," meddai, "nis gwn am un rheswm ond yn unig nad ydych wedi gofyn am dano ac yn foddlon i dalu y pris gofynedig." Yr eglurhad a roddodd y diweddar Barch. James M. Pryse, M.A., i mi dros gefnogi cyflwyno D.D. i'r Parch. ——— oedd ei fod mor awyddus am dano, nad oedd yn gwneud drwg i neb, a'i fod yntau yn cael llawer o ddifyrwch wrth ei weled yn mwynhau peth mor wag a disylwedd. Mae niferoedd yn arddel D.D.'s ag sydd yn rhy anllythyrenog i allu ymgydnabyddu a'r awdurdod safonol diweddaraf ar hanes athrawiaethau a beirniadaeth Feiblaidd, ac yn rhy anfedrus ac anghyfarwydd a phrif feddylwyr duwinyddol y dydd i gyfansoddi ysgrif i gyhoeddiad yr enwad ar Sefyllfa Duwinyddiaeth yn Nechreu yr Ugeinfed Ganrif. Nid oes genym yn hyn o sylwadau gyfeiriad at y brawd galluog a dysgedig o D——, ond yr ydym am daflu ein hatling o anghymeradwyaeth i Drysorfa y *Drych* yn erbyn y drafnidiaeth ag sydd yn cael ei dwyn yn mlaen mewn teitlau gan fân a ffug golegau Americanaidd. Pan mae teitl yn cael ei wisgo o Harvard neu Yale, o Princeton neu Cornell, o Caergrawnt neu Rhydychen, o Glasgow neu Edinburgh, mae iddo ei urddas, ei arwyddocâd, a'i ddylanwad mewn cymdeithas. Paham na bae y cyfryw ag sydd yn dioddef oddiwrth dwymyn heintus y teitlau yn apelio am feddyginiaeth at un o'r sefydliadau uchod?"

CONGL YR AWEN.

ENGLYNION I'R HAF.

Mae'r Haf, mwyhäwr hufen,—yn dymhor
A dwyma'r ddaearen ;
Dillyn i gyd, a llawn gwên,
Yw'r twyni îr eu tonen.

Mae'r wybren â'i gwên yn gu,—a'r huan
Yn rhywiog dywynu ;
Mewn gwisg aur mae'n gwasgaru
Meithrinol wres, er lles llu.

Tirion dês yw teyrn y dydd,—darfu'r rhew,
Darfu'r holl ystormydd ;
Araf iawn yw'r afonydd,
A chryn wâr yw'r chwarian wŷdd.

Mae'r meusydd, dolydd deiliog,—yn yr haf,
Yn rhyfedd o gnydiog ;
Drwy rad yr arad a'r og
'E gwyd ydau godidog.

Amrywiol lesiol lysiau—yn ganoedd
A gwnant eu penau ;
A thros y byd mae'r cnydau
A'u trem o hyd yn trymhau.

Hoff yn awr yw gwawr y gwŷdd,—e'u gwisgir
A gwasgod ysblenydd ;
Y ddraenen gu'n sawru sydd,
A gwyn yw ei gŵn newydd.

Od o lachar a dilychwin—yw'r llethr,
A llathraidd yw'r eithin ;
Daeth godidog, heulog hin
I rywiogi yr egin.

Mae awel dawel y Dehau—yn dwyn
Daionus effeithiau ;
Llawn yw'r glynoedd, cymoedd cau,
O ryw swynol rosynau.

'E gilia y nôs yn glau 'nawr,—a'r wawr
Oreura bob maenawr ;
Y mân wlith sy'n fendith fawr,
Mae'n iro ein mwyn orawr.

DEWI HEFIN.

I'w barhau.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.